# <u>Testun Esboniad</u>

**Pam y dewiswyd Tryweryn ar gyfer y Gronfa Ddŵr?**

Mae'n siŵr eich bod chi i gyd wedi clywed am hanes boddi Cwm Tryweryn. Ydych chi erioed wedi holi pam y dewiswyd yr ardal hon?

Oherwydd bod galw mawr am gyflenwad o ddŵr i bobl Lerpwl, roedd lleoliad y Cwm yn gyfleus ar gyfer y ddinas a oedd ryw 64 milltir i ffwrdd. Ychwanegiad oedd hwn i'r gronfa ddŵr a oedd yn bodoli'n barod yn Efyrnwy, er mwyn darparu cyflenwad o ddŵr digonol i'r dyfodol. Ystyriwyd tirwedd gul Capel Celyn yn berffaith.

Cost adeiladu'r argae yng Nghapel Celyn oedd £16 miliwn, ychydig o filoedd yn llai nag y byddai mewn ardaloedd eraill a oedd yn cael eu hystyried. Gan fod llawer o glai yn y tir yn yr ardal hon, byddai'r gost adeiladu yn rhatach. Yn ogystal, roedd Capel Celyn yn llai poblog, ac yn y pendraw ni fyddai'n rhaid talu iawndal i nifer fawr o bobl. Byddai hyn felly yn arbed arian i'r Llywodraeth.

Yn y diwedd, er gwaetha'r gwrthwynebiad gan y trigolion, dewiswyd y safle yng Nghwm Tryweryn ac adeiladwyd y gronfa ddŵr.